| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **28 Tachwedd 2024** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Helen Vaughan-Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau / Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Heidi Barton-Price, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad** |
| **Teitl** | **Adolygiad o'r Risgiau Corfforaethol, Medi 2024** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am Adolygiad mis Medi 2024 o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor. Gweler yr atodiadau canlynol:

- Atodiad 1 - Crynodeb
- Atodiad 2 – Manylion llawn y Risgiau Corfforaethol hyd at fis Medi 2024
- Atodiad 3 - Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg
- Atodiad 4 - Risg newydd 53

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad adolygu'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor, yn cynnwys yr argymhelliad i ychwanegu risg newydd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 4).

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad adolygu Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (atodiad 3) fel rhan o'r adolygiad hwn

(adolygwyd ddiwethaf Ebrill 2024) gan ystyried argymhellion y Tîm Gweithredol Corfforaethol (Gweler 4.9 isod)

2.3 Rydym hefyd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad am ein Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg diwygiedig ynglŷn ag ariannu prosiectau: O ystyried yr amgylchedd ariannol presennol, byddai'n briodol yn awr i ddiwygio parodrwydd 'gofalus' y Cyngor i dderbyn risg o ran cyllid prosiectau i 'agored'.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried y diwygiadau a awgrymir i'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ym mis Medi 2024 (atodiad 2) ac yn trafod unrhyw ddiwygiadau eraill sydd eu hangen, yn cynnwys risgiau newydd - gan nodi ac adrodd yn ôl ar y risg newydd yn benodol [risg rhif 53 - Atodiad 4].

3.2 Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried statws pob risg a'r parodrwydd i'w derbyn (atodiad 3), pa mor briodol yw perchnogion y risg a pha mor effeithiol yw'r rheoliadau.

3.3 Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn rhoi unrhyw adborth cychwynnol ar Ddatganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor, ar ôl ystyried adborth y Tîm Gweithredol Corfforaethol ym mharagraff 4.9 isod a'r argymhelliad i symud i barodrwydd "agored" i dderbyn risg ar gyfer prosiectau ariannol.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Yr Uwch Dîm Arwain, ynghyd â'r Cabinet, sy'n datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Mae'n cael ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet. Ar ôl adolygiadau mis Chwefror a mis Medi, mae'r gofrestr wedi'i diweddaru wedyn yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhennir crynodeb o'r adolygiadau er gwybodaeth yn unig yn y pwyllgorau hyn yn eu cyfarfodydd ym mis Ionawr a mis Gorffennaf.

4.2 Defnyddiwyd Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor yn ystod yr adolygiadau gan berchnogion risgiau, ac mae ein lefel risg (yn seiliedig ar y sgôr) yn cael ei ddadansoddi o fewn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol (Atodiad 2).

4.3 Mae gan y Cyngor 13 o Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr ar hyn o bryd. Mae crynodebau o'r adolygiad ar gyfer y cyfnod hwn i'w gweld ar ddechrau pob risg yn Atodiad 2. Ni chafodd unrhyw risgiau eu dad-ddwysau yn ystod yr adolygiad hwn. Cynigir risg newydd i'w hychwanegu at y Gofrestr. Byddai ychwanegu'r risg newydd (risg 53, gweler atodiad 4) yn golygu bod 14 o risgiau ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

4.4 Gweler atodiad 4 ar gyfer drafft o'r risg newydd fel a ganlyn: Y risg nad yw buddion y Rhaglenni Trawsnewid a Phrosiectau Mawr yn cael eu gwireddu'n llawn.

4.5 Mae'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Diane King wedi cymryd lle'r Cynghorydd Gill German ar gyfer Risgiau 01, 21, 34 a 50.

4.6 Er bod pob risg wedi'i hadolygu, nid yw sgôr risg weddilliol unrhyw un o'r 13 Risg Gorfforaethol wedi newid.

Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg

4.7 Ar hyn o bryd, mae saith risg – 01, 21, 34, 45, 50, 51 a 52 (54%) – yn anghyson â Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (atodiad 3). Fodd bynnag, mae hynny i'w ddisgwyl gan fod y gofrestr yn cynnwys risgiau mwyaf difrifol y Cyngor.

4.8 Mae'n amserol i ni edrych eto ar Ddatganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (atodiad 3) a adolygwyd ddiwethaf ym mis Ebrill 2024. Dylai'r datganiad adlewyrchu ein ffactorau allweddol allanol (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasegol, Thechnolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol) sy'n dylanwadu ar y sefydliad, ynghyd â deinameg a galw mewnol. Gofynnwyd am drafodaeth gychwynnol ym Mwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid ym mis Gorffennaf 2024 a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ym mis Hydref 2024 (gweler 2.3 uchod) i roi adborth ar ba mor briodol oedd y Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg presennol.

4.9 Tynnodd y trafodaethau hyn sylw at ein parodrwydd gofalus presennol i dderbyn risg o ran prosiectau ariannol. Cynigir ein bod yn symud y parodrwydd i dderbyn risg hwn i "agored", er mwyn darparu fframwaith mwy priodol i gefnogi'r trawsnewidiad sy'n ofynnol ar y sefydliad er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol ac ymatebion creadigol i ofynion ein preswylwyr.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Diben y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yw amlygu digwyddiadau posib yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu dynodedig felly yn hanfodol i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae dogfennau'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cofnodi risgiau a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cynnal asesiad o effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Adolygodd y Bwrdd Cyllideb a Thrawsnewid y Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Corfforaethol ym mis Gorffennaf yn sgil y rhaglen drawsnewid a syniadau yn dod i law er mwyn arbed arian i'r sefydliad. O'r herwydd, y cais gan y Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yw i'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg ar gyfer prosiectau ariannol symud o ofalus fel y mae ar hyn o bryd, i agored.

8.2 Cyn y Tîm Arwain Strategol, gofynnwyd i Berchnogion Risg y Tîm Gweithredol Corfforaethol adolygu eu risgiau dros e-bost ac fe'u trafodwyd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol ar 12 Hydref, 2024.

8.3 Yn y Sesiwn Friffio i'r Cabinet ar 4 Tachwedd 2024, cefnogwyd y gofrestr a ddiweddarwyd.

8.4 Mae'r gofrestr a ddiweddarwyd bellach yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (20 Tachwedd) a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad (28 Tachwedd).

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig ag adolygu ein cofrestr risgiau.

10.2 Bydd methiant i adolygu ein datganiad parodrwydd i dderbyn risg yn arwain at fwy o risg amhriodol i'r Cyngor, neu i'r gwrthwyneb, cyfleoedd risg yn cael eu methu.

## 11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch swyddogion ac yn nodi bod rhaid i weithdrefnau a phrosesau clir fod yn eu lle i reoli risg yn effeithiol.

11.3 Mae Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau Craffu.